SESIWN 2: O BLE Y DAW EIN BWYD?

Ystod oedran: 7-11 oed

Amlinelliad
Bydd dysgwyr yn datblygu eu sgiliau ymholi drwy ofyn a chategoreiddio cwestiynau am ffotograffau sy'n gysylltiedig â bwyd. Byddant yn ymchwilio i gynnwys bag archfarchnad ac yn dechrau creu cysylltiadau rhyngddynt hwy a tharddiad eu bwyd.

Amcanion dysgu
- Gofyn a chategoreiddio cwestiynau perthnasol er mwyn estyn gwybodaeth a dealltwriaeth o broblemau bwyd byd-eang.
- Deall bod ein cyflenwad bwyd yn deillio o bob rhan o'r byd.
- Lleoli gwledydd ar fap o'r byd.
- Cydnabod cysylltiadau rhwng cynhyrchwyr a defnyddwyr mewn gwahanol rannau o'r byd.

Deilliannau dysgu
- Bydd dysgwyr yn archwilio ffotograffau er mwyn gofyn a chategoreiddio cwestiynau ymholi am fwyd o amgylch y byd.
- Bydd dysgwyr yn ymchwilio i ffynonellau eitemau bwyd mewn bag siopa.
- Bydd dysgwyr yn mapio gwledydd ar fap o'r byd.
- Bydd dysgwyr yn gofyn ac yn ceisio ateb cwestiynau am ble y daw eu bwyd.

Cwestiynau allweddol
- Pa gwestiynau y gallwn eu gofyn am y ffotograff yma?
- O ble y daw ein bwyd?
- Pam y caiff cymaint o'n bwyd ei dyfu neu ei gynhyrchu dramor?
- Ydy ein bwyd wedi bod yn fwyd 'byd-eang' ers erioed?

Adnoddau
- Sioe sleidiau A (Sesiynau 1–3): Sleidiau 7-19
- Bag archfarchnad gyda rhwng chwech ac wyth o eitemau bwyd wedi'u labelu
- Cerdyn, papur, llinyn, siswrn, pinnau bawd, beiros
- Lleiniau bwrdd neu ddarnau mawr o ddefnydd
- Atlasau
- Taflenni gweithgareddau:
  1. *Y byd mewn bag archfarchnad*
  2. *Mapio bag archfarchnad*

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Gweithgaredd 2.1 (30 mun)

Bwyd o amgylch ein byd

- Nod y gweithgaredd hwn yw cymell dysgwyr i ddysgu mwy am bwnc bwyd. Mae'r gweithgaredd hwn hefyd yn amlygu gwybodaeth, rhagdybiaethau ac agweddau presennol dysgwyr, gan ddarparu sail ddefnyddiol ar gyfer cynllunio pellach. Anogir dysgwyr hefyd i feddwl am strwythur a phwysigrwydd y cwestiynau y maent yn eu gofyn yn hytrach na chanolbwyntio ar yr "atebion" yn unig.
- Argraffwch y ffotograffau ar sleidiau 8 i 15 o *Sioe Sleidiau A*. Fel arall, efallai y byddai'n well gennych ddewis rhai o'ch delweddau eich hun o ffynonellau eraill fel cylchgronau a phapurau newydd. Rhowch bob llun yng nghanol dalen fawr o bapur.
- Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau o bedwar a rhowch un ffotograff a thaflen o bapur i bob grŵp.
- Gofynnwch i'r dysgwyr edrych yn fanwl ar eu ffotograff ac ysgrifennu ar y papur cyfagos yr holl gwestiynau yr hoffent eu gofyn amdano. Fel arall, gallai'r dysgwyr gofnodi eu cwestiynau ar nodiadau gludiog, gan ddefnyddio nodyn gludiog ar wahân ar gyfer pob cwestiwn. Efallai y byddai'n ddefnyddiol darparu cwestiynau posibl i ddechreuwyr megis: *Pwy ...? Pryd ...? Beth ...? Pam ...? Ble ...? a Sut ...?* fel y dangosir ar sleid 16.
- Unwaith y bydd dysgwyr wedi cofnodi detholiad o gwestiynau, gofynnwch iddyn nhw gategoreiddio'r cwestiynau hyn i:
    - Y rhai y gellir eu hateb yn hawdd.
    - Y rhai y mae angen rhagor o wybodaeth amdanynt gan lyfrau neu ffynonellau eraill.
    - Y rhai nad oes ganddynt ateb pendant ond a fydd yn arwain at ddadl ehangach am y materion a godwyd yn y darlun.
- Gallai dysgwyr naill ai dynnu sylw at y cwestiynau mewn gwahanol liwiau neu grwpio'r nodiadau gludiog yn y categorïau, fel y dangosir ar sleid 17.
- Mae'n bwysig i ddysgwyr ddeall nad oes atebion clir i lawer o gwestiynau. Mae llawer o atebion yn fater o farn, er y gallant swnio'n ffeithiol. Gallai dysgwyr hefyd benderfynu a yw eu cwestiynau ar agor neu ar gau. Mae cwestiynau agored yn aml yn arwain at fwy o gwestiynau a gall dysgwyr ddilyn ymholiad i'w hateb, tra bod cwestiynau caeedig yn tueddu i gael ateb mwy pendant neu fyrrach.
- Mae'r gweithgaredd hwn yn gweithio orau os caiff ei ddangos yn gyntaf i'r dosbarth cyfan gan yr athro, gan ddefnyddio un llun fel enghraifft gyda'r awgrymiadau o sleidiau 16 a 17.
- Caniatáu amser ar ddiwedd y gweithgaredd i ddysgwyr gylchredeg o amgylch yr ystafell ddosbarth i edrych ar ffotograffau anodedig grwpiau eraill ac i ychwanegu mwy o gwestiynau at awgrymiadau blaenorol.

Gwahaniaethu

- *Gwneud pethau'n haws: Gallech gynnwys rhai ffyrdd posibl o gychwyn cwestiynau fel: Beth y maent …? Ble y maent …?*
- *Gwneud pethau'n anos: Gofynnwch i'r dysgwyr estyn cwestiwn gyda chwestiwn arall fel: Ble y maent yn byw? Pam y maent yn byw yma? Sut le ydyw?*

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Gweithgaredd 2.2 (45 mun)

Dadbacio'r bag archfarchnad

- Nod y gweithgaredd hwn yw dangos amrywiaeth fyd-eang tarddiad y bwyd ar silffoedd ein harchfarchnadoedd. Bydd yn datblygu ymwybyddiaeth dysgwyr bod llawer o wledydd tlotach y byd yn cyfrannu at fwydo pobl mewn gwledydd cyfoethocach, fel y DU.
- Bydd arnoch angen:
    - Cerdyn, papur, llinyn, siswrn, pinnau bawd, beiros
    - Lliain bwrdd neu ddarn mawr o ddeunydd ar gyfer pob grŵp
    - Copïau o'r *Byd mewn bag archfarchnad* (Taflen gweithgaredd 1), un ar gyfer pob grŵp
    - Copïau wedi'u chwyddo o *Mapio bag archfarchnad* (Taflen gweithgaredd 2), un ar gyfer pob grŵp, neu fap o'r byd wedi'i arddangos ar fwrdd gwyn rhyngweithiol yn yr ystafell ddosbarth
    - Byddai atlas yn ddefnyddiol
    - Bagiau siopa archfarchnad ar gyfer pob grŵp. Dylai pob bag gynnwys pedair i saith eitem o fwyd gan gynnwys:
        - Pwls/grawn
        - Pysgod/ffrwythau tun
        - Coffi/te
        - Bwyd wedi'i becynnu/prosesu
        - Bar o siocled
- Ceisiwch gasglu bwyd ym mhob bag o amrywiaeth mor eang â phosibl o wledydd tarddiad a chynnwys amrywiaeth o fwyd iach a llai iach, yn ogystal ag eitemau rhad a llai rhad. Gallai'r dewis gynnwys eitemau cartref cyffredin fel te neu goffi, yn ogystal ag eitemau mwy anarferol. Mae hefyd yn syniad da cynnwys o leiaf un cynnyrch gyda logo Masnach Deg i ysgogi trafodaeth. Sicrhewch fod pob eitem wedi'i labelu â'i phris. Gan fod llawer o fwydydd bellach wedi'u labelu gan godau bar yn unig, efallai y bydd yn rhaid i chi labelu'r eitemau eich hun. Hefyd, gwnewch yn siŵr bod dysgwyr yn gallu gweithio allan o ble y daw'r cynnyrch; gan ddefnyddio'r label, tag gwlad y tarddiad, neu eich labeli eich hun.
- Trefnwch y dysgwyr yn grwpiau o dri neu bedwar. Rhowch fag o fwyd i bob grŵp, copi o'r *Byd mewn bag archfarchnad* (Taflen gweithgaredd 1), beiros, darn mawr o ddeunydd neu dabled a rhai cardiau gwag bach i labelu'r bwyd i'w arddangos. Darperir copi o'r tabl ar daflen gweithgaredd 1 ar sleid 18.
- Gofynnwch i bob grŵp ddadbacio eu bag. Ar gyfer pob eitem o fwyd, dylent ddefnyddio'r tabl yn Nhaflen Gweithgaredd 1 i gofnodi ei enw, sut y caiff ei becynnu, o ba wlad y mae'n dod, a'r pris.
- Dylai dysgwyr hefyd ysgrifennu labeli i ddangos gwlad tarddiad pob eitem o fwyd ac arddangos eu heitemau a'u labeli ar y lliain bwrdd. Yna dylai pob grŵp gyflwyno eu heitemau bwyd i weddill y dosbarth.
- Nesaf, dylai dysgwyr leoli ar fap o'r byd y gwledydd y tarddodd eu heitemau bwyd ohonynt. Os ydynt ar gael, gallai dysgwyr farcio'r gwledydd hyn ar fap o'r byd a arddangosir ar fwrdd gwyn rhyngweithiol. Darperir map o'r byd ar sleid 19.
- Fel arall, gellid rhoi copi mwy (maint A1) o *Mapio bag archfarchnad* (Taflen Gweithgaredd 2) i bob grŵp a gallai'r dysgwyr roi eu heitemau bwyd yn uniongyrchol ar y map hwn o'r

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

byd. Opsiwn arall yw darparu copïau A4 o fap y byd a gofyn i ddysgwyr dynnu llun a dod o hyd i'w eitemau bwyd arno.

- Yn olaf, dewch â'r dosbarth cyfan at ei gilydd i fyfyrio ar y gweithgaredd ac i archwilio'r amrywiaeth o wledydd y mae'r bwyd yn eu bagiau wedi tarddu ohonynt.
- Gallai pwyntiau i'w trafod gynnwys:
    - O ble y mae ein bwyd yn dod?
    - Pam y mae cymaint o'n bwyd yn cael ei dyfu neu ei gynhyrchu dramor?
    - Pa fwyd yn y bagiau archfarchnad sy'n dod o ba gyfandiroedd? Efallai y bydd gan ddysgwyr reis o India, pysgod tun o Indonesia, a ffrwythau o Falaysia. A yw dysgwyr yn gwybod bod y gwledydd hyn i gyd yn Asia?
    - A yw ein bwyd wedi bod yn fyd-eang erioed?
    - Beth yw Masnach Deg? Erbyn hyn mae galw cynyddol gan ddefnyddwyr am gynhyrchion a fasnachwyd yn deg, gan gynnwys cynhyrchion bwyd. Mae mwy a mwy o bobl am wybod bod y te, y coffi, y mêl neu'r siwgr y maent yn eu prynu wedi'u cynhyrchu heb gam-fanteisio, a bod y ffermwyr a dyfodd neu a brosesodd y cynnyrch wedi cael pris teg am eu gwaith.

Gwahaniaethu

- Gwneud pethau'n haws: Cefnogi dysgwyr drwy dynnu sylw at wlad tarddiad y bwyd ar ei ddeunydd pacio.
- Gwneud Pethau'n fwy anodd: Gallai dysgwyr awgrymu rhesymau pam mae llawer o'r bwyd rydyn ni'n ei fwyta yn cael ei dyfu dramor drwy ddefnyddio atlas i edrych ar fapiau topolegol fel hinsawdd, defnydd tir a chysylltiadau trafnidiaeth. Gallai dysgwyr hefyd amcangyfrif milltiroedd bwyd eu heitemau bwyd gan ddefnyddio gwefan fel www.foodmiles.com.

Syniadau Pellach

- Amrywiad o Weithgaredd 2.1 yw i ddysgwyr feddwl am gwestiynau yr hoffent eu gofyn i berson yn y ffotograff. Er enghraifft, i Nema ar sleid 10, sy'n coginio ac yn gweini bwyd yn y ganolfan dderbyn yn anheddiad ffoaduriaid Imvepi yn Uganda. *Pwy sydd yn eich teulu? A yw eich plant yn mynd i'r ysgol? Pa fathau o fwyd mae eich teulu'n eu bwyta? Pwy sy'n paratoi'r bwyd yn eich cartref? Oes gennych chi lawer o amser rhydd, a sut ydych chi'n hoffi ei dreulio?*
    - Gallai dysgwyr ymchwilio i atebion i'w cwestiynau a chymryd rhan mewn gweithgaredd "sedd boeth": ateb cwestiynau gan eraill o safbwynt y person yn y ffotograff.
    - Gellid datblygu'r syniad gweithgaredd hwn ymhellach drwy ofyn i'r dysgwyr ysgrifennu llythyr at y person yn eu ffotograff, gan ofyn iddynt am eu bywyd. Yna gallai dysgwyr ymchwilio i rai o'r atebion i'w cwestiynau ac ysgrifennu ymatebion posibl gan y person yn y ddelwedd.
- Gellid defnyddio'r bwyd yn y bagiau archfarchnad yng *Ngweithgaredd 2.2* wedyn mewn casgliad gŵyl gynaeafu neu ar gyfer stondin groser mewn ffair ysgol.
- Gofynnwch i'r dysgwyr restru'r bwyd a oedd ganddynt i frecwast neu yn eu bocs bwyd pecyn, neu eitemau ar fwydlen prydau ysgol. Yna gallent fapio pryd o fwyd ar fap byd.
- Trefnwch ymweliad ag archfarchnad leol i archwilio o ble y daw eitemau bwyd.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

- Defnyddiwch adnoddau addysgu Oxfam i gael gwybod mwy am Fasnach Deg. Mae adnoddau defnyddiol yn cynnwys:
    - **Bananas**

      Wedi'i ddiweddaru gyda ffeithiau, ffotograffau a straeon newydd, mae'r adnodd hwn yn cefnogi dysgwyr i fynd i'r afael â Masnach Deg a meddwl yn feirniadol am rai o'r heriau y mae ffermwyr banana yn eu hwynebu.

      https://www.oxfam.org.uk/education/resources/go-bananas
    - **Archwilio Masnach Deg**

      Archwiliwch y berthynas rhwng ffermwyr, busnesau a defnyddwyr. Trafodwch sut y gellid gwneud masnach fwyd yn decach a phwy sy'n gyfrifol am weithredu.

      www.oxfam.org.uk/education/resources/explore-fairtrade

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect ei gyflawni.

Y byd mewn bag archfarchnad

Taflen gweithgaredd 1

Bwyd	Sut y caiff ei becynnu?	O ble y mae'n dod? Enw'r wlad a'r cyfandir.	Beth yw'r pris?	Unrhyw nodweddion diddorol eraill?

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Mapio bag archfarchnad

Taflen gweithgaredd 2



Ffynhonnell y map: Geographical Association www.geography.org.uk

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.